

Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ

Hywel

Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Ionawr 2019

Amser: 08.30 – 09.05

Preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AC (Cadeirydd) Rebecca Evans AC Darren Millar AC Rhun ap Iorwerth AC Neil Hamilton AC
Staff y Pwyllgor:	Aled Elwyn Jones (Clerc)
Eraill yn bresennol	Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd Helen Carey, Llywodraeth Cymru



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

- Bydd y Cyfarfod Llawn heddiw yn dechrau am 12.45pm gyda theyrnedau i Steffan Lewis AC. Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes y byddai'n agor y sesiwn ac yna'n galw am funud o dawelwch, i ddechrau gyda chaniad y gloch; caiff ffotograff o Steffan ei ddangos ar y sgriniau drwy gydol y sesiwn. Dywedodd y Llywydd y byddai'n galw ar Arweinydd Plaid Cymru, y Prif Weinidog, arweinwyr y pleidiau eraill, ac yna bobl eraill. Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes ei bod yn bwriadu atal y Cyfarfod Llawn am hyd at 10 munud cyn aildechrau ar y busnes arferol. Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes hefyd y byddai aelodau o deulu Steffan yn bresennol yn yr oriel gyhoeddus ar gyfer y teyrnedau.
- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

Dydd Mercher

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

Cwestiynau'r Llefaryr i'r Cwnsler Cyffredinol

Wedi trafod â'r Rheolwyr Busnes, penderfynodd y Llywydd y dylid cael slot amser Cwestiynau'r Llefaryr yn ystod Cwestiynau Llafar y Cynulliad i holi'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit.

Cododd Rheolwyr Busnes y posibilrwydd o gael sesiynau Cwestiynau Llafar ar wahân ar gyfer rôl y Cwnsler Cyffredinol a rôl Gweinidog Brexit fel ei gilydd, a nodwyd y byddai'n ddefnyddiol cael nodyn pellach gan Lywodraeth Cymru yn esbonio rôl a statws y Cwnsler Cyffredinol a rôl a statws Gweinidog Brexit.

Hefyd, cododd y Rheolwyr Busnes y mater o ran sut y gallent ofyn cwestiynau llafar i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip.

Nododd y Trefnydd y bydd dogfen yn cynnwys Cyfrifoldebau Gweinidogion yn cael ei hanfon heddiw, ond dywedodd na fyddai'n nodi sut y câi'r rhaniad ei wneud yng nghyfrifoldebau Gweinidogion a'u Dirprwyon. Gofynnodd Rheolwyr Busnes i Lywodraeth Cymru ystyried ymhellach y gwahaniaeth cyfrifoldebau rhyngddynt mewn sesiynau Cwestiynau Llafar, yn enwedig ar gyfer cwestiynau'r llefarwyr. Nododd y Rheolwyr Busnes eu tybiaeth y dylid cyfeirio holl gwestiynau'r llefarwyr at y Gweinidog perthnasol yn y cyfamser.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Dyddiadau ar gyfer dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mai'r ddau ddyddiad nesaf ar gyfer dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau fydd 30 Ionawr a 3 Ebrill, yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Busnes y tymor diwethaf i gyhoeddi'r ddau ddyddiad ar gyfer unrhyw dymor yn gynnar er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i Aelodau gyflwyno cynnig.

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

Dydd Mercher 23 Ionawr 2019 -

- ~~Dadl Fer: Darren Millar (Gorllewin Clwyd) (30 munud) - *gohiriwyd tan 20 Chwefror*~~
- Dadl Fer: Janet Finch-Saunders (Aberconwy) (30 munud) - *wedi'i symud ymlaen o 20 Chwefror*

Dydd Mercher 6 Chwefror 2019 -

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau: P-04-628 Gwella mynediad at addysg a gwasanaethau mewn Iaith Arwyddion Prydain (60 munud)
- Dadl gan Aelod o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

3.4 Dadl Aelod – Trafod cynigion i'w trafod

- Dewisodd y Rheolwyr Busnes y cynnig canlynol i gynnal dadl yn ei gylch ar 23 Ionawr:

NNDM6919

Bethan Sayed

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod cyn-weithwyr Allied Steel and Wire dal heb gael gwerth llawn eu pensiynau, er gwaethaf cytundeb iawndal a gytunwyd yn 2007 gyda Llywodraeth flaenorol y DU a bron 14 mlynedd ar ôl newid yng nghyfraith y DU.
2. Yn nodi o dan cytundeb iawndal a gytunwyd yn 2007 gyda Llywodraeth flaenorol y DU, addawyd yr un driniaeth i weithwyr â gweithwyr a deiliaid cynllun pensiwn o dan y gronfa diogelu pensiynau a'r cynllun cymorth ariannol.
3. Yn nodi yn sgil newidiadau yn y gyfraith ers 2004, o dan y gronfa diogelu pensiynau a'r cynllun cymorth ariannol fod gan weithwyr yr hawl i gael eu talu hyd at 90 y cant o werth eu cyfraniad pensiwn. Fodd bynnag, nid yw cyfraniadau a dalwyd cyn 1997 wedi'u diogelu rhag chwyddiant.
4. Yn gresynu at y caledi ariannol y mae hyn wedi'i achosi i gyn-weithwyr ASW yng Nghymru.
5. Yn galw ar Lywodraeth y DU i anrhydeddu ysbryd yr ymrwymadau a wnaeth Llywodraeth flaenorol y DU i weithwyr ASW yng Nghymru.

Cefnogwyr:

Andrew RT Davies

Mike Hedges

Helen Mary Jones

Leanne Wood

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drefnu'r Ddadl Aelod nesaf ar 6 Chwefror.

4 Deddfwriaeth

4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) y Bil Pysgodfeydd

Cytunodd Rheolwyr Busnes y dylid cyfeirio'r memorandwm atodol hwn at y pwyllgorau sydd eisoes yn ystyried y memorandwm cyntaf (NHAMG, MADY a MCD), gyda'r un dyddiad cau, sef 12 Chwefror.

4.2 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Cadeiriodd y Dirprwy Lywydd yr eitem hon, gan mai'r Llywydd yw'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

Yn dilyn y ddau ymateb a gafwyd gan y Pwyllgor MCD a'r Pwyllgor NHAMG, cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor MCD ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1, ond cytunodd i ddychwelyd maes o law i'r amserlen a gynigiwyd yn sgil y sylwadau yn llythyr y Pwyllgor MCD ynghylch cael ymestyn yr amserlen ar gyfer Craffu Cyfnod 1.

5 Pwyllgorau

5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drefnu'r ddadl

Unrhyw fater arall

Presenoldeb Gweinidogion yn y Siambr

Atgoffodd y Llywydd y Trefnydd fod angen i Weinidogion fod yn y Siambr ar amser ar gyfer eu heitemau, yn dilyn achlysuron lle bo rhaid galw ar Weinidogion i ddod i'r Siambr ar ôl i eitem ddechrau, ac ar ôl i'r Gweinidog lechyd gyrraedd yn hwyr ar gyfer ei ddadl ei hun yr wythnos diwethaf.

Newid aelodaeth Pwyllgorau

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyflwyno cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau gan eu hychwanegu at yr agenda yfory, yn dilyn ceisiadau gan y Grŵp Llafur a Grŵp y Ceidwadwyr.

Mae newidiadau'r Ceidwadwyr Cymreig yn cynnwys ethol aelod newydd i'r Pwyllgor CLICh, yn lle un o Aelodau Plaid Cymru, fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Busnes y tymor diwethaf.

Casglu Canllawiau

Hysbysodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes y bydd papur ar Gasglu Canllawiau ar agenda'r cyfarfod wythnos nesaf, ac meddai y gallai'r Rheolwyr Busnes fod am drafod hyn â'u grwpiau ymlaen llaw.